WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018
Cyfeirnod y ddogfen: 765A2018-19



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Andy Bruce, Ron Price, Carole Smith a Mark Jones dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 | 4 |
| Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus | 4 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 4 |
| Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18 | 6 |
| Atodiadau | 12 |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad | 12 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 13 |

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2017-18

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth gronedig o waith archwilio ac arolygu, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill a oedd ar gael, gan gynnwys dulliau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ei hun o adolygu a gwerthuso.

2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018-19.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

## Arddangosyn 1 – gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

Disgrifiad o'r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny'n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2018 | **Adolygu cyflwr a defnydd o gerbydau fflyd gwyn**<br>Adolygiad i asesu a yw'r Awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol i reoli'r potensial am ddefnydd amhriodol o'i gerbydau fflyd gwyn mewn modd effeithiol yn unol â'i drefniadau llywodraethu. | Mae gan yr Awdurdod systemau i reoli defnydd preifat o'i gerbydau fflyd gwyn, fodd bynnag nid yw ei drefniadau llywodraethu yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a chyfyngiadau fel mater o drefn. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod gan yr Awdurdod bolisi ar gyfer rheoli ei gerbydau fflyd gwyn ond mae angen ei ddiwygio;<br>• mae'n rhaid defnyddio cofnodion gyrwyr i gofnodi manylion yr holl deithiau a wneir mewn cerbydau fflyd gwyn, fodd bynnag nid ydynt yn cael eu llenwi a'u dychwelyd yn gyson, ac nid yw rheolwyr yn craffu arnynt yn ddigonol; ac<br>• mae rheolaethau ar waith i reoli'r fflyd wen ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol i reoli'r holl risgiau tebygol. | **Polisi a chanllawiau ar gyfer cerbydau fflyd gwyn**<br>Dylai'r Awdurdod adolygu a diweddaru ei bolisi a'i ganllawiau ar gyfer cerbydau fflyd gwyn, yn arbennig:<br>• sicrhau eu bod yn adlewyrchu rheolaethau perthnasol a gofynion cyfreithiol a threth;<br>• cynnwys canllawiau gweithredu i reolwyr a staff;<br>• sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn atebol am gydymffurfio â'r polisi a'r rheolaethau;<br>• rhoi gwybod i'r holl staff am unrhyw bolisïau rheoli fflyd sydd wedi'u diwygio, gan gynnwys cofnodion cerbydau, tracio cerbydau a gofynion gorfodol; ac<br>• adolygu lleoliadau gorsafoedd cerbydau i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf CThEM a'r lleoliad sydd angen y cerbyd. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | **Cofnodion cerbydau**<br>C2 Dylai'r Awdurdod adolygu ei system cofnodi cerbydau, yn arbennig:<br>• nodi ar y cofnod na chaniateir defnydd preifat o'r cartref i'r orsaf, oni bai bod eu dyletswyddau yn ei gwneud yn ofynnol i deithio i gyfeiriad cartref, er enghraifft ar alwad;<br>• cynnwys ymwadiadau priodol yn y cofnodion cerbydau y mae'n rhaid i'r gyrrwr eu llofnodi;<br>• sicrhau bod taflenni cofnodion cerbydau wedi'u llenwi a'u cyflwyno yn fisol i'r adran briodol; a<br>• chysoni cofnodion cerbydau ag adroddiadau'r rheolwyr ar ddefnydd tanwydd.<br>**Tracio cerbydau**<br>C3 Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau llywodraethu trwy:<br>• sicrhau bod yr holl reolwyr sydd â chyfrifoldebau am fflyd yn deall y system tracio cerbydau a bod y system ar gael i bob un;<br>• cyflwyno gofyniad gorfodol i reolwyr â chyfrifoldebau am fflyd fonitro'n rheolaidd y system tracio cerbydau ac yn arbennig defnyddio'r adroddiadau 3am i dracio symudiadau cerbydau a herio unrhyw anghysondebau; a<br>• sicrhau bod rheolwyr a staff yn ymateb yn briodol i unrhyw heriau a godir gan reolwyr adrannol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2017 | **Llythyr archwilio blynyddol 2016-17**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; ac<br>• mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau. | Dim |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Ebrill 2017 | **Archwiliad o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim |
| Tachwedd 2017 | **Archwiliad o'r asesiad blynyddol o berfformiad**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad yr Awdurdod. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Gwaith dilynol 2016-17 | **Adolygiad o drefniadau rheoli asedau – cyhoeddwyd ym mis Hydref 2017**<br>Yn ystod 2016-17 gwnaethom ni adolygu effeithiolrwydd dull yr Awdurdod o reoli ei dir a'i adeiladau gan gynnwys rhannu cyfleusterau. Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella a gwnaethom ni archwilio cynnydd o ran cyflawni'r rhain. | Mae gwaith yn parhau i wella adrodd ariannol a'r amgylchedd rheoli ariannol yn gyffredinol.<br>Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau bod yr agweddau meintiol ac ansoddol ar y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ac Adrodd Ariannol yn cael eu bodloni. Adroddwyd hyn i Bwyllgor Archwilio yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.<br>Mae Rheolwyr Adrannol wedi'u cyfarwyddo ar ofynion cynnal cofrestrau asedau cywir a chynhwysfawr a sicrhau bod asedau wedi'u dosbarthu'n gywir. Mae'r gwaith o ddiweddaru cofrestrau yn parhau, ac mae'r adran Cyllid yn rhoi cyngor ac arweiniad.<br>O ran gwneud penderfyniadau yn rhan o reoli'r rhaglen gyfalaf, mae'r Awdurdod erbyn hyn yn rhoi mwy o bwyslais nag y byddai wedi'i wneud yn flaenorol ar arfarnu opsiynau yn hytrach na pharhau yn syth â chyfarpar newydd sydd yr un peth a'r hen gyfarpar. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar egluro'r angen presennol a'r angen yn y dyfodol ac ar benderfynu pa opsiynau eraill a allai fod, er enghraifft yr ystyriaeth ddiweddar o ddyfodol cyfleusterau hyfforddi'r Gwasanaeth Tân yn Nolgellau.<br>Yn dilyn newid personél ar lefel yr uwch reolwyr yn ddiweddar, mae dwy swydd Prif Swyddog Cynorthwyol wedi'u cyflwyno. Bwriedir gwneud rhagor o waith i adlewyrchu'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn dogfennau corfforaethol.<br>Ar lefel Cymru gyfan, nid yw'r gwaith o gytuno ar fesurau cyffredin i asesu dangosyddion allweddol o ran tir ac adeiladau wedi'i wneud hyd yn hyn (o bosibl trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd rhai o'r syniadaeth yn hyn o beth yn gallu ffurfio rhan o ailasesiad cynlluniedig yr Awdurdod yn ddiweddarach eleni ar gyfer ei ddyfarniad lefel platinwm yn y Safon Iechyd Corfforaethol sy'n cynnwys cynaliadwyedd a materion sy'n ymwneud ag adeiladau. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Nid oes unrhyw adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio wedi'u cynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. | | | |

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 OJJ

**Cyfeirnod:** 269A2017-18
**Dyddiad cyhoeddi:** 17 Tachwedd 2017

Annwyl Gynghorydd Lloyd Davies

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 22 Medi 2017, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2016-17 yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon i aelodau'r Awdurdod Tân yn fy Adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 18 Medi[1]. Y materion archwilio pwysicaf oedd:

- Roedd y datganiadau cyfrifyddu drafft o ansawdd gwael, ni fuont yn destun adolygiad ansawdd ac nid oeddent wedi'u cefnogi gan ddogfennau gwaith digon manwl. O ganlyniad i'r materion hyn, yn ogystal â diffyg cysoni incwm a gwariant grant, ailddatganwyd y datganiadau cyfrifyddu drafft yn helaeth.
- Er gwaethaf yr argymhellion ar gyfer gwella o'n harchwiliad yn 2015-16, roedd nifer o faterion sylweddol yn parhau yn natganiadau cyfrifyddu 2016-17, yn arbennig cadw'r gofrestr asedau a diffyg manylder am yr asedau unigol sydd wedi'u cynnwys o dan offer gweithredol a TG.
- Roedd Cronfa Bensiwn Lladdwyr Tân yn cyfrifo taliadau pensiwn sy'n ymwneud â mis Mai 2016-Ebrill 2017 yn y datganiadau cyfrifyddu 2016-17, yn hytrach na'r rhai sy'n ymwneud â mis Ebrill 2016-Mawrth 2017.

1 Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru


Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 22 Medi 2017.

### Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dwyn sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau wedi amlygu'i hun hyd yma neu feysydd y gellid eu gwella pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

O ganlyniad i'r materion a nodwyd yn ystod yr archwiliad ac a adroddwyd i'r Awdurdod ar 18 Medi 2017, bu'n rhaid i ni wneud llawer o waith ychwanegol. Roedd y materion hyn yn canolbwyntio ar ansawdd cyffredinol gwael y datganiadau cyfrifyddu a'r cofnodion ategol. Felly byddwn yn codi ffi o £5,600 yn ychwanegol at amcangyfrif y ffi o £45,000 a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017. Bydd yr amcangyfrif o'r ffi ar gyfer 2017-18 yn cael ei phennu o fewn paramedrau graddfa ffioedd yr awdurdodau tân ac achub, a gaiff eu nodi yng Nghynllun Ffioedd 2018-19 cyhoeddedig Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn gywir



**Mark Jones**

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

c.c. Simon Smith, Prif Swyddog Tân

Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân

Ken Finch, Trysorydd a Swyddog Adran 151

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru